Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2021/22

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED-POWYS

## Tabl Cynnwys


Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau 3

Egwyddorion Llywodraethu Da 3

1. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol. ... 4
2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid... 6
3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy ..8
4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl...10
5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid ...14
6. Rheoli Risgiau a Pherfformiad trwy Drefniadau Rheoli Mewnol Cadarn a Rheolaeth gref dros Arian Cyhoeddus ...15
7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol ...18
8. Adolygu a Gwerthuso Trefniadau Llywodraethu ...21
9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad ...22

Barn ...28

Casgliad...28

**Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau**

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith a safonau; y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus, y caiff ei ddiogelu a'i ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae ganddynt ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion a hwyluso’r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff system gadarn ei chynnal ar gyfer trefniadau Rheoli Mewnol gydol y flwyddyn, a bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli risg.

Mae’r Datganiad hwn yn egluro sut mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â’r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy’n adlewyrchu'r egwyddorion yng nghanllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar G*yflawni Arferion Llywodraethu Da: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr Rhifyn 2016.* Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y’u diwygiwyd), mewn perthynas â’r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddiad y datganiad llywodraethu blynyddol.

Mae’r ddogfen yn nodi canfyddiadau’r gwerthusiad o drefniadau llywodraethu, ac fe'u hategir gan fatrics o dystiolaeth sy’n manylu ar sut mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn arddangos egwyddorion ac ymddygiadau llywodraethu da.

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Mae’r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i lywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff ei adolygu a’i ddiweddaru’n flynyddol.

Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol gan gynnwys sicrhau gwerth am arian.

Mae’r Datganiad hwn yn egluro sut mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â’r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy’n adlewyrchu'r egwyddorion yng nghanllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar G*yflawni Arferion Llywodraethu Da: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr Rhifyn 2016.*

1. **Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.**

Mae’r ddwy Gorfforaeth yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae prosesau ar waith i gefnogi’r egwyddor graidd o ran moeseg ac uniondeb, sy’n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona.

Mae gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy’n cydymffurfio â’r gyfraith, safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. I gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- Cod Moeseg (cod ymarfer, sef casgliad o egwyddorion a safonau ymddygiad proffesiynol)
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd ar y Cyd
- Polisi Chwythu’r Chwiban
- Polisi Urddas yn y Gweithle
- Polisi Tegwch yn y Gwaith
- Polisi Cysylltiad Hysbysadwy
- Polisi Buddiannau Busnes
- Polisi Fetio
- Polisi a Chanllawiau Camddefnyddio Sylweddau
- Polisi Camymddwyn Staff yr Heddlu

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn parhau i hyrwyddo diwylliant moesegol ac yn darparu fforwm sy’n ystyried penblethau moesegol. Mae'r Pwyllgor Moeseg, sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy’n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu, hefyd yn elwa o gael Cadeirydd annibynnol o'r byd academaidd. Bydd y Cadeirydd yn cynnull cyfarfodydd ychwanegol os bernir bod eu hangen neu os bydd y Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl yn gwneud cais am un.

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn annog ac yn cefnogi swyddogion a staff i herio ymddygiadau sy’n gwneud i gydweithwyr deimlo’n anghyfforddus, yn ofnus neu’n chwithig a'u hadrodd yn gyfrinachol ac yn uniongyrchol i’r Adran Safonau Proffesiynol neu drwy ‘Bad Apple,' sef system adrodd gyfrinachol sy'n darparu llwyfan ar gyfer sgwrs ddienw ddwyffordd. Yn ogystal â hyn, mae gwybodaeth am sut y dylai'r heddlu adrodd am ddigwyddiad trwy linell uniondeb Crimestoppers ar gael ar fewnrwyd yr heddlu, ynghyd â llinell adrodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw gweithwyr y Comisiynydd na’r Prif Gwnstabl yn cael eu dylanwadu gan ragfarn, tuedd, neu wrthdrawiad buddiannau wrth ymdrin â rhanddeiliaid gwahanol. Cyhoeddir Datganiadau o Fuddiant a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Heddlu, ac mae gweithdrefnau ar waith er mwyn galluogi i unrhyw wrthdrawiad buddiannau gael ei gofnodi.

Mae gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl drefniadau tryloyw a hygyrch ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae gan yr Heddlu Adran Safonau Proffesiynol, a’i rôl yw cynnal safonau moesegol a

phroffesiynol Heddlu Dyfed-Powys drwy reoli'r defnydd o reoliadau camymddwyn a gweinyddu cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn erbyn swyddogion heddlu a staff yr heddlu islaw rheng y Prif Gwnstabl. Y Comisiynydd fydd yn ymdrin ag unrhyw gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Mae'r heddlu yn cyflogi tîm fetio o fewn yr adran Safonau Proffesiynol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau fetio. Caiff cwynion sy'n fwy difrifol eu natur eu trosglwyddo i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Panel Annibynnol yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys sy'n delio ag unrhyw gŵyn ffurfiol yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae Heddlu Dyfed Powys hefyd wedi cyflwyno llawer o fentrau er mwyn gwneud y broses gwyno yn fwy hygyrch, gan gynnwys ymuno â'r platfform Single Online Home a sefydlu tîm i ymdrin â chwynion ar y pwynt cyswllt cyntaf.

O ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn gynnar ym mis Chwefror 2020, rhoddwyd cylch gwaith statudol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gynnal adolygiadau annibynnol o gwynion yr heddlu, gyda'r Comisiynydd yn cymryd rôl y corff adolygu perthnasol a'r achwynydd yn gwneud cais swyddogol am adolygiad o'r modd yr ymdriniodd yr Heddlu â'u cwyn. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, derbyniodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfanswm o 56 o adolygiadau dilys, gydag wyth ohonynt yn cael eu cadarnhau a thri yn cael eu cadarnhau yn rhannol. Ni chadarnhawyd 25 ohonynt, ac mae 20 yn disgwyl i gael eu hystyried ar hyn o bryd.  Nododd cyfanswm o 17 o adolygiadau (boed wedi'u cadarnhau, eu cadarnhau'n rhannol neu heb eu cadarnhau) argymhellion/gwersi a ddysgwyd.

Mae'n faes sydd wedi profi twf sylweddol ac yn waith ychwanegol i swyddfa'r Comisiynwyr. Mae galw digyffelyb na ragwelwyd wedi bod am adolygiadau ers haf 2021, nid yn unig yn Nyfed-Powys ond mewn ardaloedd Heddlu eraill, sydd wedi arwain at rai problemau yn ymwneud ag amseroldeb. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gadarn yn ein dymuniad i beidio â rhuthro unrhyw apêl, ac i sicrhau y darperir lefel uchel o wasanaeth yn y pen draw. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i fynd i'r afael â'r maes angen hwn.

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ble trafodir materion penodol yn ymwneud â chwynion, a chraffir ar weithgarwch yr heddlu ar ran y Comisiynydd. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ystyried themâu ar gyfer dysgu sefydliadol.

Mae'r Comisiynydd yn ddarostyngedig i God Ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a llw ei swydd, ac mae'r Prif Gwnstabl (a phob unigolyn arall sy'n gweithio ym maes plismona) yn ddarostyngedig i God Moeseg y Coleg Plismona, gyda'r ddau yn cadw at egwyddorion Nolan. Pennaeth Staff a Swyddog Monitro'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yw'r Swyddog Monitro statudol dynodedig, ac mae'n gyfrifol am gynghori ar gyfreithlondeb a phriodoldeb gweithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn creu amgylchedd ble y gall pob aelod o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol ag arferion da. Caiff unrhyw ganllawiau a gyflwynir gan bartneriaid a chyrff allweddol, gan gynnwys y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, eu lledaenu ar draws yr Heddlu. Yn yr un modd, caiff arferion gorau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu sicrhau drwy Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Prif Weithredwyr Plismona a Throseddu a Chymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a chânt eu lledaenu ymhlith Staff Swyddfa Comisiynydd yr

Heddlu a Throseddu.

## 2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae gan Gomisiynwyr gyfrifoldeb statudol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, a rhaid iddynt geisio barn y gymuned er mwyn creu cyswllt pontio rhwng yr adran blismona a'r cyhoedd. Mae'r ymgysylltiad hwn yn llywio'r blaenoriaethau lleol o ran plismona a osodwyd gan y Comisiynydd, fel y manylir arnynt yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys y mae'r Prif Gwnstabl yn ddarostyngedig iddo.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth am eu gwaith a'u cyflawniadau yn rheolaidd ar wefannau priodol, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mewn adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, e-fwletinau misol y Comisiynydd, agendâu, a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd.

Er mwyn cefnogi didwylledd ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd cynhwysfawr, mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu ar waith sy'n nodi sut y bydd pobl leol yn ymwneud â'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, atebolrwydd a chyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Newidiodd y pandemig y ffordd yr oedd yr heddlu a swyddfa'r Comisiynydd yn gallu ymgysylltu â'r cyhoedd gan fod rhaid cadw pellter cymdeithasol. Roedd y cyfyngiadau hyn yn gosod cyfyngiadau pellach ar symudiad cyhoeddus ac yn achosi i gymunedau deimlo'n ofnus ac yn rhwystredig, a arweiniodd at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a phryderon ynghylch troseddau cudd.

Ar hyd y cyfnod adrodd hwn, mae'r Comisiynydd wedi ymgysylltu'n barhaus â'r cyhoedd drwy gynnal rhaglen reolaidd o Ddiwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned, gan fanteisio ar yr holl dechnoleg sydd ar gael i ymgysylltu'n rhithiol â phobl a grwpiau ar draws siroedd Dyfed-Powys.

Parhawyd i ymgysylltu'n ddigidol â'r cyhoedd drwy gydol ail flwyddyn y pandemig, a alluogodd cymunedau i barhau i ofyn cwestiynau i'r Comisiynydd a rhannu eu barn a'u pryderon yn uniongyrchol, gan gefnogi'r ymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn modd ystyrlon a phellgyrhaeddol.

'Roedd 'Ymgysylltu â Chymunedau' ymhlith blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu 2017 i 2021, gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid yng nghymunedau Dyfed-Powys yn ystod 2021/22 - er gwaethaf heriau cyfyngiadau COVID-19. Mynychodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyfarfodydd Awdurdodau Lleol amrywiol ar draws Dyfed-Powys gan ddarparu sesiynau briffio ffurfiol i Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol ar faterion plismona amserol.

Gwnaed cynnydd o ran nodi grwpiau diddordeb arbennig ychwanegol a grwpiau lleiafrifol yn ein cymunedau yn arbennig, er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy anodd eu cyrraedd. Roedd ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd hyn fel rhan o ymgynghoriad y Swyddfa ar ddatblygiad Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2021/2025, o gymorth mawr i'r Comisiynydd i nodi blaenoriaethau newydd. Mynegodd llawer o unigolion o fewn y grwpiau hyn ddiddordeb mewn cefnogi gwaith yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn y

dyfodol, gyda nifer ohonynt yn gwneud cais am wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli, ac un unigolyn un benodol yn dewis ymgymryd â rôl ar y Grŵp Cynghori Annibynnol.

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu 2021/2025 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cadarnhau ymrwymiad y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ymgysylltu'n ehangach â phobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal yr heddlu ac i gynyddu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol gael eu clywed, rhannu eu barn a llunio polisi.[1]

Ymgymerwyd â gwaith ymchwil ac ymgynghori manwl wrth ddatblygu'r Cynllun, gan gynnwys y canlynol:

- Ystyried dogfennau plismona cenedlaethol
- Edrych ar ddatblygiadau Cymreig cenedlaethol allweddol
- Arfarnu dogfennau allweddol Heddlu Dyfed-Powys
- Adolygu blaenoriaethau partner o dan y ddyletswydd gyfatebol
- Ymgynghori â'r canlynol:
  - Preswylwyr a busnesau
  - Detholiad o reolwyr canol ac uwch-reolwyr
  - Grwpiau lleiafrifol sydd â llai o gynrychiolaeth
  - Rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol
  - Y cyhoedd yn ehangach
  - Dadansoddi adolygiadau melin drafod perthnasol ac adrodd ar arferion mewn mannau eraill a'u hystyried.

Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol <https://www.gov.uk/government/publications/strategic-policing-requirement> a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, a ddatblygwyd gyda Phrif Gwnstabliaid ac a lywiwyd gan farn y cyhoedd, dioddefwyr troseddau a blaenoriaethau rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn barhaus er mwyn llywio penderfyniadau a chefnogi gweithgarwch craffu'r Comisiynydd. Cynhelir ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gyfer penderfyniadau penodol megis praesept y dreth gyngor.

Mae Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu wedi'i diwygio yn cael ei datblygu yn unol â'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd sydd i'w gyhoeddi yn 2022.

Yn fewnol, caiff swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu eu diweddaru trwy dudalennau mewnrwyd newydd yr heddlu (DPPi2), sy'n cynnwys blogiau Prif Swyddogion a chyfleoedd i ofyn cwestiynau i'r Prif Gwnstabl. Mae #Dydd Gwener Ffilm wedi parhau i ddarparu ffilm fer wythnosol sy'n amlygu gwaith, newyddion a chyflawniadau allweddol ar draws yr heddlu, gyda chyfraniadau gan y Comisiynydd a Phrif Swyddogion.

Cyflwynwyd Fforwm Rheng Flaen o ganlyniad i'r adborth a gafwyd yn dilyn 100 diwrnod o sgyrsiau'r Prif Gwnstabliaid, ac mae wedi'i gynllunio fel y gall CHau, SCCHau, Rhingylliaid ac Arolygwyr sy'n gweithio ar y rheng flaen ac yn y gymuned godi pryderon, syniadau, atebion neu gwestiynau, er mwyn sicrhau bod lleisiau'r holl staff yn cael eu clywed ar bob lefel yn Nyfed-Powys.

[1] Pan ohiriwyd etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu am flwyddyn hyd at fis Mai 2021, cafodd y Cynllun Heddlu a Throseddu ei ymestyn am gyfnod o 12 mis, gyda chaniatâd y Panel Heddlu a Throseddu.

Bydd panel yr Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol, yn craffu ar waith y Comisiynydd ac yn ymgynghori â'u cymunedau lleol. Rôl y Panel yw craffu ar weithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd, gan ddarparu cefnogaeth a'i herio drwy gymryd rôl cyfaill beirniadol.

Mae'r Comisiynydd yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi gwybodaeth ar y wefan ar gyfer y cyhoedd er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, sy'n helpu i sicrhau ei fod yn bodloni'r rhwymedigaethau o dan Orchymyn Cyrff Plismona Etholedig (gwybodaeth benodedig) 2011 (fel y'i diwygiwyd) a'r gofyniad o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dyfarnwyd y Nod Ansawdd Tryloywder i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu am y drydedd flwyddyn yn olynol ym mis Chwefror 2021.

Mae'r Comisiynydd yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried a thrafod perfformiad y system cyfiawnder troseddol leol ac unrhyw faterion neu fentrau y mae'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn mynd i'r afael â nhw, yn unigol neu ar y cyd.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol i wneud trefniadau er mwyn casglu barn y cyhoedd am drosedd ac anhrefn yn eu hardal. Mae'r Heddlu yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar sawl lefel, o gyswllt dyddiol ar y stryd a galwadau ffôn i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac arolygon ffurfiol mewn perthynas â blaenoriaethau, lefelau ac ansawdd gwasanaeth.

Mae'r heddlu yn cynnal nifer o arolygon boddhad y cyhoedd a defnyddwyr, yn bennaf gyda dioddefwyr mathau penodol o droseddau. Er i'r broses gael ei gohirio dros dro yn ystod y pandemig, mae rhaglen newydd â mwy o ffocws yn cael ei dylunio a'i datblygu ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## 3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

Y Cynllun Heddlu a Throseddu yw'r cynllun corfforaethol a osodwyd gan y Comisiynydd i'w gyflawni o fewn pum mlynedd. I gefnogi'r cynllun, mae'r Prif Gwnstabl yn datblygu Cynllun Cyflawni, ac adroddir ar gynnydd yn ei erbyn i'r Comisiynydd. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn rhannu gweithgaredd â'r cyhoedd trwy'r wefan a thrwy weithgareddau ymgysylltu amrywiol megis taflen y dreth gyngor.

Mae'r heddlu yn cynllunio ar gyfer y dyfodol drwy edrych ar feysydd i'w gwella yn Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Mae angen i'r heddlu gael gwell dealltwriaeth o'r galw a'r hyn sy'n effeithio ar y galw hwnnw, fel y gall ddefnyddio ei adnoddau'n effeithlon a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn effeithiol.

Mae'r model Plismona Bro, a addaswyd yn ddiweddar, wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau ac mae wedi'i ategu gan swyddogaethau Ymateb, Ymchwilio i Droseddau, Gweithrediadau Arbenigol a Diogelu lleol a gefnogir yn ganolog gan yr Hwb Bregusrwydd aml-asiantaeth arloesol. Mae hyn yn ymgorffori'r egwyddorion craidd o rannu gwybodaeth amser real a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae pob un yn cyfuno i ddarparu'r gwasanaethau plismona sydd eu hangen i gwrdd ag amcanion allweddol y Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer yr heddlu. Mae cynllun newydd bellach ar waith sy'n nodi blaenoriaethau'r Comisiynydd.

Croesawodd yr Heddlu'r recriwtio ychwanegol sydd wedi mynd rhagddo yn dilyn Ymgyrch Uplift. Mae ein hymgyrch recriwtio yn sicrhau ein bod yn denu, yn datblygu ac yn cadw'r dalent orau a bod gennym weithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn gynyddol. Mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i sicrhau bod gan yr Heddlu weithlu dawnus a chynrychioliadol, sy'n darparu gwasanaethau plismona o safon i gymunedau Dyfed-Powys sy'n seiliedig ar degwch, uniondeb a pharch.

Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn mynegi'r galw am wasanaethau'r heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys a sut mae'r heddlu'n rheoli ei adnoddau i ymateb i'r galw hwn yn y ffordd orau bosibl er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel i bawb. Yn benodol, tynnir sylw at y ffaith fod y galw gan y cyhoedd a chan gymdeithas yn cynyddu a bod anghenion yn cymhlethu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi profi'r galw mwyaf ers degawd. Mae'r heddlu wedi ymateb i'r amgylchiadau hyn mewn ffordd hyblyg, gan feithrin cydberthnasau cryfach gyda phartneriaid a gweithio'n galed i feithrin hyder y cyhoedd mewn amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Mae'r prosiect End-to-End yn brosiect trosedd, ymchwilio a chanlyniadau ar lefel heddlu, ac fe'i ystyrir fel un o brif flaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys. Drwy sefydlu'r Hwb Digwyddiadau Trosedd, nod y prosiect yw gwella prosesau ein heddlu o'r pwynt cyswllt cyntaf â'r galwr hyd at y camau cofnodi, ymchwilio, a chymhwyso canlyniad priodol.

Mae'r Hwb Digwyddiadau Trosedd yn gyfrifol am gofnodi'r holl adroddiadau o droseddau nad oes angen presenoldeb cychwynnol gan yr heddlu a dilysu'r holl droseddau a adroddir, gan gynnwys y rhai a gyflawnir gan eraill. Yn ogystal â hyn, mae'n gwneud penderfyniadau brysbennu ac asesu priodol ar y cyfle cyntaf gan ddefnyddio Fframwaith Ymchwilio sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod gan yr Hwb Digwyddiadau Trosedd y gallu i reoli'r troseddau niferus a'i fod yn gallu darparu ymateb ymchwiliol effeithiol ac amserol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a datgarboneiddio a sicrhau heddlu sy'n wyrddach ac yn fwy cynaliadwy. Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod gweithgareddau gweithredol ac anweithredol yr heddlu a'u heffaith ar yr amgylchedd cenedlaethol a chymunedau Dyfed-Powys.

Er bod yr heddlu wedi gwneud cynnydd da yn y blynyddoedd diwethaf i ddatgarboneiddio a datblygu ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio, mae natur plismona yn golygu ei bod yn annhebygol y gallai'r heddlu ddarparu gwasanaethau heb achosi unrhyw allyriadau, ond mae llawer mwy yn cael ei wneud i leihau allyriadau.

Mae'r heddlu wedi cefnogi datblygiad Strategaeth Cynaliadwyedd Heddlu Cymru Gyfan sy'n nodi sut y bydd heddluoedd yn sicrhau'r canlynol:

- Ein bod yn deall ein gweledigaeth a'n hymrwymiad i newid hinsawdd a Chymru carbon isel
- Lleihau allyriadau carbon i gefnogi'r uchelgais o gyflawni sero net erbyn 2050
- Adrodd yn gyson yn erbyn dangosyddion a fframwaith llesiant
- Datblygu arferion busnes cynaliadwy ac effeithlon

Mae'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn uchelgeisiol a bydd angen i Ddyfed-Powys wneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n gweithredu ynghyd â thrawsnewid ystadau, asedau, systemau a phrosesau'n drylwyr.

Sefydlwyd y Prosiect Gweithio'n Ddoethach i gefnogi newidiadau i'n ffordd o weithio, gyda thros 500 o ymatebwyr i arolwg yn awgrymu bod y mwyafrif o staff yn cefnogi model hyblyg o weithio. Yr ymdeimlad cyffredinol oedd cefnogi staff a oedd am weithio o gartref ar dasgau a gweithgareddau dyddiol a mynychu'r pencadlys neu swyddfa pan fyddai angen cydweithio fel tîm ar gyfer adolygiadau perfformiad a gwiriadau llesiant. Bydd yr opsiwn i weithio o hwb sy'n nes at eu cartref hefyd ar gael.

## 4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl

Caiff canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl eu hategu gan Gynlluniau Cyflawni sy'n manylu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau allweddol. Ategir hyn gan wybodaeth am berfformiad a ystyrir gan Fwrdd Perfformiad yr Heddlu, o dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl, yn ogystal â'r Bwrdd Plismona a Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu, sy'n canolbwyntio'n rheolaidd ar gyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig.

Mae'r Heddlu wedi integreiddio proses Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ei gylch Cynllunio Blynyddol. Mae hyn yn darparu cyswllt cryf rhwng argymhellion Datganiad Rheoli'r Heddlu, prosesau asesu Strategol (MORILE), gwaith cynllunio'r gweithlu, y strategaeth gyfalaf, ac yn y pen draw, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n ffurfio rhan o ystyriaethau gosod praesept blynyddol y Comisiynydd.

Mae'r Heddlu wedi nodi'r angen i ddiweddaru ei drefniadau rheoli teleffoni a chysylltiadau er mwyn darparu seilwaith gwydn a modern. Bydd y prosiect hwn hefyd yn galluogi derbynwyr galwadau i asesu a nodi unigolion sy'n galw'n aml a galwyr bregus yn well, yn ogystal â darparu llwyfan ar gyfer integreiddio rhyngweithiadau gyda'r cyhoedd dros y ffôn ac ar-lein. Mae'r prosiect hwn ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno'n derfynol yn ystod haf 2023.

Ymgyrch Valiant yw ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu ymateb plismona effeithiol mewn perthynas â'r galw cynyddol disgwyliedig am eu gwasanaeth yn ystod misoedd yr haf. Bydd yn darparu gwasanaeth effeithiol i'n cymunedau trwy flaenoriaethu adnoddau digonol pan fydd y galw ar ei uchaf, a fydd yn sicrhau diogelwch a llesiant swyddogion. Bydd hefyd yn galluogi Heddlu Dyfed-Powys i gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd a darparu gwelededd.

Gallai goblygiadau'r cynnydd disgwyliedig yn y galw amrywio o symudiad cyhoeddus torfol anghyfyngedig, pryderon diogelwch cysylltiedig ymysg aelodau'r cyhoedd, traethau gorlawn a mannau prydferth, i blismona cyffredinol a mwy o droseddu.  A gallai'r cyfan effeithio ar bartneriaid ar draws ardal ddiffiniedig Fforwm Rhagbaratoi lleol Dyfed-Powys.

Amcan strategol yr ymgyrch hon yw cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, amddiffyn pobl rhag niwed difrifol ac ymgysylltu â chymunedau.

Mae Cyfathrebu Corfforaethol yn gyfrifol am nifer o ymgyrchoedd allanol sy'n codi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth ac yn rheoli ymgysylltiad cymunedol yn effeithiol dros gyfnod yr haf, yn unol â'n blaenoriaethau allweddol. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn cynnwys ymgyrch yr Haf 'Mwynhewch - Parchwch' (parchwch ein cymunedau, arfordir, cefn gwlad, ffyrdd, a chynlluniwch eich taith), Ymgyrch Flamenco – sy'n targedu rêfs anghyfreithlon; Ymgyrch Lion - Menter bartneriaeth i sicrhau bod Dinbych-y-pysgod yn parhau i fod yn gyrchfan ddiogel a phoblogaidd i bawb yr haf hwn; Ymgyrch Darwen – Ymgyrch Plismona Ffyrdd i gynyddu ymwybyddiaeth am ddiogelwch beiciau modur ac Ymgyrch Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a

Rheolaeth drwy Orfodaeth – 'Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre’. Caiff adborth allanol ar ein gweithgareddau plismona eu monitro drwy'r ddesg ddigidol a'u bwydo i gyfarfod wythnosol Ymgyrch Valiant. Mae cynlluniau penodol ar gyfer lleoliadau allweddol hefyd wedi'u creu ble mae bygythiadau haf penodol wedi'i nodi sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cynlluniau patrôl ar gyfer ardaloedd o bwys, megis Traethau a Mannau Agored, wedi'u creu a byddant yn cael eu gweithredu. Bydd pwyntiau pwysig o ran galw ac adnoddau yn cael eu nodi ar gyfer ystod o risgiau er mwyn cefnogi penderfyniadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy gydol yr haf. Bydd y rhain yn destun adolygiad wythnosol yng nghyfarfod Ymgyrch Valiant Silver.

Er bod effeithiolrwydd cynlluniau'r heddlu yn destun adolygiad wythnosol gan Ymgyrch Valiant a chan reolwyr gweithredol, bydd ôl-drafodaeth lawn a gwerthusiad ffurfiol yn cael eu cwblhau ddiwedd yr haf i nodi arferion da ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi gwobrwyo Heddlu Dyfed-Powys â gradd Dda mewn perthynas â rhwystro ac atal. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi canfod bod dull yr heddlu o ailfodelu Plismona yn y Gymdogaeth a defnyddio egwyddorion rheoli newid yn arfer arloesol. Mae gan Blismona yn y Gymdogaeth strwythur clir, ac mae'r heddlu yn deall y galw sy'n wynebu timau Cymdogaeth ac yn rheoli ei adnoddau i gyd-fynd â'r galw hwnnw. Yn ogystal â hyn, canfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi fod yr heddlu yn lleihau pa mor aml y gofynnir i swyddogion Cymdogaeth ymgymryd â rolau eraill yn yr heddlu.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Cronfeydd yn gydrannau allweddol o'r broses hon a rhoddir cyflwyniadau ar ganlyniadau a chynigion cyllidebol i'r Comisiynydd, i Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, i aelodau archwilio allanol ac i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu yn y Seminar Cyllid yn flynyddol.

Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gyfalaf eu cefnogi yn eu tro gan gynllun arbedion manwl, cynllun gweithlu, cynllun hyfforddi, strategaeth TGCh, Strategaeth Ystadau, a rhaglen adnewyddu cerbydau. Mae hyn yn galluogi cyllidebau manwl (refeniw a chyfalaf) a sefydliadau gweithlu i gael eu neilltuo i feysydd Adrannol. Cefnogir Rheolwyr Gweithredol a Phenaethiaid Adrannau gan Bartneriaid Busnes Cyllid ac Arbenigwyr AD sy'n eu galluogi i nodi pwysau a bwydo i mewn i'r cylch cynllunio a monitro ariannol.

O safbwynt gweithredu o ddydd i ddydd, cefnogir y broses drwy osod tasgau, briffio, a defnyddio prosesau DAP unigol i sicrhau bod staff yn derbyn y dasg briodol ac yn cyfrannu'n llawn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ei God Rheolaeth Ariannol yn ystod 2020 sydd wedi’i gynllunio i gefnogi arferion da o ran rheolaeth ariannol ac i helpu i ddangos cadernid ariannol a chynaliadwyedd. Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn seiliedig ar saith o safonau rheolaeth ariannol sy'n cwmpasu arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd, a'r cyfan â sawl agwedd ategol yn perthyn iddynt.

Er mwyn dangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni, cynhaliwyd hunanasesiad. Roedd yr hunanasesiad wedi arddangos lefel uchel o gydymffurfiaeth, ond hefyd wedi amlygu rhai meysydd a oedd angen eu gwella a oedd yn ymwneud yn benodol â dangosyddion gwytnwch ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â newidiadau yn y galw am

wasanaethau. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hystyried a bydd yr heddlu yn mynd i'r afael â hwy drwy'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig.

Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol. Mae'r strwythur yn dod â nifer o gyfarfodydd gwahanol ynghyd ac yn darparu llinell adrodd glir ar gyfer penderfyniadau a chamau gweithredu. Mae gan Uwch Arweinwyr sydd islaw lefel y Prif Swyddog fwy o gyfrifoldeb dros gadeirio a gwneud penderfyniadau, sy'n cefnogi camau gweithredu hyblyg ac ymatebol a chanlyniadau gwell. Caiff atebolrwydd am benderfyniadau ei gefnogi gan y strwythur llywodraethu a'r prosesau sydd ar waith.

Mae yna broses achos busnes ffurfiol, a gaiff ei chefnogi gan y Bwrdd Adfer, Newid a Thrawsnewid, ble caiff prosiectau eu hystyried. Mae'r grŵp hefyd yn monitro gweithrediad prosiectau, newidiadau ac unrhyw fentrau a chynlluniau y cytunwyd arnynt. Caiff buddion, gwireddiadau a risgiau hefyd eu hadrodd er mwyn llywio enillion effeithlonrwydd neu arbedion ariannol.

Yn ogystal â hyn, mae'r Fframwaith Comisiynu yn nodi sut mae'r Comisiynydd yn cydweddu'r Gyllideb Gomisiynu â'r themâu allweddol a'r blaenoriaethau strategol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu.

Trwy Single Online Home, mae'r heddlu wedi cyflwyno gwasanaethau newydd a gwell, gan gynnwys tudalennau cynghori ar Aflonyddu ar y Cyfryngau Cymdeithasol, tudalennau cynghori ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched a gwasanaethau gwell ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth a Hawl Dioddefwyr i Adolygu. Mae system Adrodd fanylach ar gyfer Digwyddiadau Traffig Ffyrdd yn cael ei phrofi ar hyn o bryd. Llwyddodd Dyfed-Powys i dreialu'r gwasanaeth adrodd ar-lein ar gyfer achosion o Dreisio ac Ymosodiadau Rhywiol, ac mae ar fin cael ei gyflwyno i heddluoedd eraill y DU.

Mae adolygu a phrofi'r gwasanaethau newydd o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn rhoi llawer o bwysau ar adnoddau.

Mae'r heddlu yn cyflwyno system rheoli cofnodion newydd. Roedd y system rheoli cofnodion newydd Niche i fod i fynd yn 'fyw' ym mis Medi 2022. Mae'r dyddiad bellach wedi'i symud i fis Mai 2023. Penderfynwyd gwneud hyn er mwyn cyd-fynd â'r gwaith uwchraddio yn y gogledd-orllewin yn ystod 2022, fel y gall profion derbyn defnyddwyr fynd rhagddynt. Os cânt eu derbyn, byddant yn cael eu cynnwys yn yr uwchraddiad byw sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2022. Bydd y paratoadau ar gyfer y newid yn parhau i gynnwys y canlynol:

- Gofynion hyfforddi
- Datblygiad/aliniad data symudol PRONTO
- TWIF (rhyngwyneb dwy ffordd gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron)
- Ffeil Achos Digidol
- Datblygiadau rhyngwyneb eraill

Mae'r A22a wedi'i llofnodi gan y consortiwm o heddluoedd, sy'n cynnwys Dyfed-Powys, Glannau Mersi, Gogledd Cymru, a Swydd Gaer, sy'n ffurfio Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin. Bydd cyflwyno'r system rheoli cofnodion Niche yn mynd i'r afael â phroblemau ansawdd data'r systemau annibynnol presennol trwy sicrhau bod holl wybodaeth yr heddlu yn cael ei chynnal o

fewn yr un system a'i bod wedi'i chysylltu.

Mae yna nifer o broblemau yn ymwneud ag adrodd, gan gynnwys problemau o ran trosi ôl-gofnod data a pharu MOPI, ac arbenigedd cyfyngedig mewn defnyddio derbyniad defnyddwyr ymysg aelodau'r tîm i gynorthwyo'r heddlu.

Sefydlwyd prosiect Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu i edrych ar brosesau cyfan ar gyfer cam-drin domestig a stelcian ac aflonyddu. Mae'r prosiect yn cynnwys adnabod ac ymateb, ymchwilio, prosesau cyfiawnder troseddol a diogelu. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd prosiect Model Ymchwilio i achosion o Dreisio.

Sefydlodd y Comisiynydd Grŵp Aur ddiwedd 2020 i ystyried nifer o agweddau yn ymwneud â rheoli Ystadau. Parhaodd y Grŵp Aur hwn i adolygu trefniadau rheoli cyfleusterau, adnoddau, rheoli prosiectau, rheolaeth ariannol a llywodraethu yn ystod 2021/2022. Fel rhan o'r argymhellion terfynol, ac er mwyn optimeiddio darpariaeth y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, trosglwyddodd y Comisiynydd y swyddogaeth a'r staff yn ôl i'r Prif Gwnstabl ar 1 Ebrill 2022.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu yn cydweithio â phartneriaid plismona yng Nghymru (Gwent, Gogledd Cymru, De Cymru), ac maent wedi ymrwymo i gydweithio i amddiffyn cymunedau Cymru rhag risg a niwed.

Er gwaethaf yr heriau gweithredol a systematig a'r dirwedd ariannol anodd, mae heddluoedd Cymru yn cydweithio i sicrhau y caiff adnoddau cyhoeddus eu defnyddio yn fwy effeithiol ac effeithlon, ac maent wedi ymrwymo i weithio er mwyn sicrhau mwy o ryngweithredu a safoni ar draws pob maes plismona.

Caiff trefniadau cydweithio cenedlaethol a rhanbarthol eu harolygu'n strategol drwy Raglen Gydweithredu Cymru Gyfan. Mae'r Rhaglen yn adrodd yn ôl i Grŵp Prif Swyddogion Cymru a'r Grŵp Plismona yng Nghymru, a oedd o dan gadeiryddiaeth Comisiynydd Dyfed-Powys yn ystod 2021/22.

Cefnogir gweithio'n rhanbarthol gan egwyddorion a rennir, a ailddatblygwyd yn 2021, sy'n cynnwys:

- Adeiladu ar waith partneriaeth presennol yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau proffesiynol, cost effeithiol ac effeithlon er mwyn cefnogi darpariaeth weithredol
- Integreiddio mwy gyda phartneriaid ac asiantaethau
- Datblygu cyfleoedd sydd wedi'u sylfaenu ar ymddiriedaeth, didwylledd a thryloywder
- Canolbwyntio ar fuddion
- Atebion arloesol sydd â meddwl agored
- Rhyddid i ystyried cydweithrediadau lleol sy'n diwallu anghenion y cyhoedd a gofynion gwasanaethau lleol orau

Ym mis Ionawr 2021, ail-gadarnhaodd heddluoedd Cymru eu hymrwymiad a diweddarwyd y 'Weledigaeth' i gynnwys y canlynol:

- Modern – cwmpasu'r defnydd o dechnoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg
- Gwydn – ymgorffori gwell galluoedd a llesiant, a
- Cynhwysol – hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth o fewn gwasanaeth yr heddlu

Caiff cydweithrediad yng Nghymru ei gefnogi gan strwythur llywodraethu ac atebolrwydd cadarn sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Grŵp Plismona yng Nghymru a Grŵp Prif Swyddogion Cymru yn glir.

Yn 2021, cytunodd Heddlu Dyfed-Powys i gynnal trefniadau cydweithredol Consortiwm Fforensig Arfordir y Gorllewin a'r De o fis Mehefin 2022 ymlaen, gyda 19 o heddluoedd yn cymryd rhan. Yn ogystal â hyn, mae'r heddlu yn bartner/cyfrannwr cyfartal i raglen gydweithredol ISO/Achrediad Fforensig De Cymru.

Caiff y rhaglen gydweithio yng Nghymru ei hadolygu'n flynyddol a'i haddasu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol.

**5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid**

Mae llesiant ein gweithlu wedi bod yn hollbwysig ac yn flaenoriaeth allweddol gennym, yn enwedig o ganlyniad i'r addasiadau a'r cyfyngiadau a ddaeth i rym yn sgil y pandemig.

Mae swyddogion a staff wedi parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'n cymunedau mewn cyfnod o ansicrwydd byd-eang. Mae llawer wedi ymgymryd â'r gwaith hwn tra'n delio â'u pryderon a'u hofnau eu hunain, tra'n gofalu am deulu ac anwyliaid, a thra'n cydbwyso beichiau yn eu bywyd proffesiynol a phersonol. Mae llesiant meddwl yn ganolog i ffocws y Prif Swyddogion a'r Comisiynydd, yn ogystal â sicrhau bod ein gweithlu yn cael eu cefnogi.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl strwythurau a rolau diffiniedig o fewn y sefydliadau er mwyn galluogi arweinyddiaeth effeithiol. Datblygwyd Addewid Arweinyddiaeth mewn ymgynghoriad â'r holl uwch reolwyr ac fe'i mabwysiadwyd ym mis Ebrill 2022.

Datblygwyd y Proffil Asesu Datblygiad yn dilyn adborth gan staff yn gofyn am broses sydd yn fwy greddfol. Mae blaenoriaethau'r heddlu yn cysylltu â gweledigaeth, gwerthoedd, a nodau'r heddlu, ac o fis Ebrill 2022 ymlaen, maent yn gysylltiedig â'r Safonau Cynnydd Cyflog newydd ar gyfer swyddogion heddlu, sy'n creu cyswllt newydd rhwng perfformiad a datblygiad cyflog. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ardystiad gan bob swyddog ac aelod o staff. Mae'r Proffil Asesu Datblygiad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i staff a swyddogion nodi pa mor hyderus ydynt yn eu gallu i gyflawni eu rolau'n effeithiol a pha mor gymwys ydynt i gyflawni eu rôl, a gaiff ei thrafod ac y cytunir arni fel rhan o'r arfarniad a'r broses nodi anghenion hyfforddi.

Fel rhan o raglen ddiwygio ehangach, cynlluniwyd y safonau cynnydd cyflog i annog a galluogi datblygiad proffesiynol yn ogystal â hyrwyddo diwylliant o berfformiad uchel. Mae'r Proffil Asesu Datblygiad newydd yn sicrhau y caiff adolygiadau perfformiad a datblygiad rheolaidd eu cynnal, y caiff hyfforddiant hanfodol ei ddarparu a'i gynnal, ac y cefnogir llesiant unigolion.

Ym mis Chwefror 2021, rhannwyd fideo hyfforddi er mwyn cefnogi swyddogion i ddeall pwysigrwydd ceisio erlyniadau a gaiff eu harwain gan dystiolaeth, a bydd y neges yn cael ei hatgyfnerthu yn ystod hyfforddiant y gwanwyn.
Yn ogystal â hyn, darparodd Fforwm Ymgysylltu Ieuenctid y Comisiynydd gymorth i ddatblygu adnodd hyfforddi y gall yr heddlu ei ddefnyddio wrth hyfforddi swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.

Bydd gwelliannau o ran dadansoddi'r galw, cynllunio gweithlu strategol a rhagolygu ar gyfer y dyfodol yn galluogi'r heddlu i recriwtio a hyfforddi er mwyn sicrhau bod eu gallu i ateb y galw yn y dyfodol yn parhau i fod yn briodol ac yn gynaliadwy.

Er mwyn monitro olyniaeth, sgiliau a galluoedd y gweithlu yn weithredol, sefydlwyd Grŵp Adnoddau'r Heddlu. Mae'r grŵp, sydd o dan gadeiryddiaeth PGC, yn canolbwyntio ar sicrhau bod y capasiti a'r gallu gan yr heddlu i fodloni'r galw presennol ac ar gyfer y dyfodol, ac yn benodol, i sicrhau y cyflawnir targedau er mwyn bodloni rhaglen Uplift yr heddlu. Caiff cyfarfodydd y grŵp eu llywio gan gynllun y gweithlu sydd yn llywio cynllunio strategol yn yr un modd.

Mae hyfforddiant arweinyddiaeth rheolaeth ariannol wedi'i ddarparu i'r holl reolwyr nad ydynt yn ymwneud â chyllid i wella'r trefniadau ar gyfer rheoli cyllideb mewn modd cadarn, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau cost effeithiol ar y lefel fwyaf lleol.

Mae'r heddlu wedi cyflwyno dull hyfforddi o arwain sy'n drawsnewidiol, ac sy'n cefnogi Cynllun Strategaeth Arweinyddiaeth a Llesiant CALON, i gefnogi, hyfforddi ac arwain newid diwylliannol.

Ym mis Ebrill 2020, dyfarnwyd achrediad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP) i Heddlu Dyfed-Powys, gwobr a ddyfarnwyd i ddim ond 7% o sefydliadau'r DU sy'n tanysgrifio i IiP. Roedd y meysydd gwella penodol a fu o gymorth iddynt ennill yr achrediad yn cynnwys y canlynol:

- Ymddiriedaeth mewn uwch arweinwyr a'u hagosatrwydd
- Credu yn y negeseuon a gaiff eu cyfleu, a gweld ffordd gadarnhaol ymlaen ar gyfer y sefydliad
- Blaenoriaethau allweddol clir ar gyfer y sefydliad gyda dealltwriaeth gyson ohonynt
- Lefel uwch o gydweithio ar draws y sefydliad a chyda rhanddeiliaid allanol a pherthynas waith gadarnhaol rhwng yr heddlu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Undebau.

## 6. Rheoli Risgiau a Pherfformiad trwy Drefniadau Rheoli Mewnol Cadarn a Rheolaeth gref dros Arian Cyhoeddus

Mae yna ddiwylliant rheoli risg wedi'i ymwreiddio ar draws y ddau sefydliad ac ar bob lefel, gyda swyddogion a staff yn rheoli risg yn effeithiol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r broses rheoli risg, y ffurflenni a'r gofrestr wedi'u hadolygu a gwnaed gwelliannau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r newidiadau i'r broses yn dileu'r posibilrwydd o ddyblygu ac yn cysoni'r broses o adrodd am risgiau a'u rheoli â'r strwythur llywodraethu newydd. Yn ogystal â hyn, mae Cofrestr Materion wedi'i hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a chyflwynwyd matrics risg newydd yn dilyn adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio.

Ar lefel adrannol a lleol ble ceir risgiau'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd, cânt eu rheoli trwy gofrestrau risg adrannol a'u monitro o fewn yr adran a'u huwchgyfeirio yn unol â goddefiannau risg adrannol. Mae templedi prosiect a rhaglen newydd hefyd yn adlewyrchu'r gofrestr risg a'r broses newydd a chânt eu rheoli'n lleol, oni bai bod angen uwchgyfeirio risg i'r lefel strategol, ble caiff ei hasesu a'i chofnodi ar Gofrestr Gorfforaethol yr heddlu. Mae'r broses lywodraethu yn galluogi i risg gael ei neilltuo i'r person(au) neu'r adran(nau) priodol ar gyfer ei lliniaru, ei rheoli a gweithredu arni.

Mae trefniadau dwyochrog ar waith rhwng yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer trafod unrhyw risgiau a nodwyd a allai fod yn berthnasol i'r Gorfforaeth arall. Os bydd y naill sefydliad neu'r llall yn gwrthod cais i gofnodi risg ar y ddwy gofrestr gorfforaethol, gallai'r maes risg gael ei drafod gan y Bwrdd Plismona. Yr unig wahaniaeth yn y modd yr ymdrinnir â risgiau ym mhob Corfforaeth Unigol yw'r sgorau risg, a bennir yn annibynnol yng nghyd-destun cofrestrau'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Nod y trefniadau sicrwydd corfforaethol yw ymgorffori'r tri amddiffyniad.

<u>Yr amddiffyniad cyntaf (swyddogaethau sy'n berchen ar risgiau ac yn eu rheoli)</u>
Caiff ei ffurfio gan reolwyr a staff sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risg fel rhan o'u hatebolrwydd i gyflawni amcanion. Gyda'i gilydd, dylent feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r awdurdod angenrheidiol i weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau rheoli risg perthnasol. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o'r cwmni, ei amcanion, yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, a'r risgiau y mae'n eu hwynebu.

<u>Yr ail amddiffyniad (swyddogaethau sy'n goruchwylio neu sy'n arbenigo mewn cydymffurfio neu reoli risg)</u>
Mae'n darparu'r polisïau, y fframweithiau, yr offer, y technegau a'r cymorth i alluogi i risg a chydymffurfiaeth gael eu rheoli yn yr amddiffyniad cyntaf. Mae hefyd yn monitro er mwyn barnu pa mor effeithiol yw'r gwaith hwnnw, ac yn helpu i sicrhau cysondeb o ran diffiniadau a mesuriad risg. Yn cynnwys Gwybodaeth Reoli a threfniadau rheoli perfformiad.

<u>Y trydydd amddiffyniad (swyddogaethau sy'n darparu sicrwydd annibynnol)</u>
Fe'i darperir gan weithgarwch archwilio mewnol ac arolygiad annibynnol. Nid yw'r trydydd amddiffyniad yn rhan o brosesau rheoli risg y ddau amddiffyniad cyntaf, a'i brif rolau yw sicrhau bod y ddau amddiffyniad cyntaf yn gweithredu'n effeithiol, yn ogystal â chynghori ar sut y gellid eu gwella. Yn gweithio o dan gyfarwyddyd y bwrdd / pwyllgor archwilio ac yn adrodd yn ôl iddo, mae'n gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ar ran corff llywodraethu ac uwch reolwyr y sefydliad. Gall hefyd ddarparu sicrwydd i reoleiddwyr sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Caiff risgiau gwybodaeth eu diffinio fel bygythiadau i gyfrinachedd: sicrhau mai dim ond personau awdurdodedig a all gyrchu neu dderbyn gwybodaeth; Uniondeb: sicrhau bod yr wybodaeth yn ddilys, yn gywir ac yn gyflawn; ac argaeledd: sicrhau y gall personau awdurdodedig gael mynediad ato pan fo angen ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Caiff y Gofrestr Risg Rheoli Gwybodaeth ei rheoli o fewn y maes busnes Llywodraethu a Newid ac mae'n cyd-fynd â chofrestr Risg Gorfforaethol yr Heddlu. Defnyddir y Gofrestr Risg Gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a chofnodi gweithgaredd a manylir arni yng nghyfarfodydd y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth, sydd o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl. Weithiau bydd meysydd risg sylweddol a nodir yn y gofrestr Risg Gwybodaeth yn cael eu huwchgyfeirio er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth.

Mae'r archwaeth risg ar gyfer asesu risgiau Corfforaethol yn 'Agored' ar hyn o bryd. Adolygwyd yr archwaeth risg ym mis Chwefror 2022, ond nid yw wedi newid ers dechrau'r pandemig COVID-19.

Wrth i blismona addasu i'r newidiadau o ran galw a risg, roedd pob maes risg ar gofrestr risg Ymgyrch Talla wedi'u lliniaru a symudodd y gofrestr i gyfnod segur. Mae'r risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r cyfnod adfer wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Adfer yr Heddlu, gyda'r arweinwyr busnes priodol yn cymryd perchnogaeth leol. Asesir pob risg gan ddefnyddio meini prawf asesu Glas Coch Ambr Gwyrdd (BRAG).

Roedd y prif risgiau a oedd yn parhau ar ddiwedd 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

- Cofnodi Troseddau ac AHGTAEF yn peri pryder
- Cydymffurfedd Iechyd a Diogelwch – Hyfforddiant Gorfodol
- Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfedd – risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli cofnodion yr heddlu yn aneffeithiol
- Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu – risgiau sy'n gysylltiedig ag amseroedd gweithredu, oedi a threfniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd a chywirdeb data
- Oedi wrth weithredu system TG ar gyfer gwiriadau cefndir ar gyfer arfau saethu awtomatig
- Darpariaeth Fforensig Tocsicoleg Randox
- Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ac Asedau Gwybodaeth – anghysondeb setiau data
- Diffyg cydymffurfio â gofynion statudol i gynnal Arolygiadau Iechyd a Diogelwch
- Samplau Tocsicoleg Traffig Ffyrdd a gwaith achos Cyffuriau yn agosáu at gapasiti darparu Gwasanaeth Gwyddoniaeth Fforensig
- Colli gallu patholeg fforensig y Swyddfa Gartref yng Nghymru
- Risg yn ymwneud â diogelwch rhwydweithiau TGCh ac anallu i ymuno â rhaglenni cenedlaethol megis y Gwasanaeth Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR) Cenedlaethol a'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol
- Risg o seiber-ymosodiad yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, faleiswedd ar systemau TGCh, meddalwedd wystlo, hacio, gwe-rwydo, ymosodiadau atal gwasanaeth wedi'u dosbarthu
- Safle wrth gefn Canolfan Rheoli'r Heddlu
- Pandemig COVID-19
- Staff Datgelu yn methu chwilio am ddata personol ar Outlook ar gyfer Ceisiadau Testun am Wybodaeth
- Oedi cyn i'r larymau affräe yn y Dalfeydd gyrraedd Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu
- Adnoddau o fewn tîm prosiect y System Rheoli Cofnodion
- Windows 10 – heb gefnogaeth o fis Mai 2021
- Ansicrwydd parhaus mewn perthynas â chyllid yr heddlu gan gynnwys yr adolygiad i fformiwla ariannu'r heddlu
- Ystadau – pryderon mewn perthynas â rheoli contractau, adnoddau, rheoli prosiectau, llywodraethu a rheolaeth ariannol

Darperir trefn reoli gan Fwrdd Cyllid a Strategaeth yr Heddlu a'r Bwrdd Plismona, gyda gwaith craffu ehangach yn cael ei wneud gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae risg wedi'i chynnwys ym mhob agenda corfforaethol a chânt eu mapio i sicrhau ystyriaeth briodol.

Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi'r gwaith o fonitro perfformiad a rheolaeth ariannol amserol wedi'i dargedu ar lefelau amrywiol o'r sefydliadau. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr heddlu yn nghyfarfod chwarterol y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, ble bydd yn herio yn adeiladol ac yn annog dadl ar berfformiad gweithredol.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi cynnal adolygiad o berfformiad yr heddlu a nodwyd rhai problemau. Wrth edrych tuag at y dyfodol, rhoddwyd ffocws newydd ar berfformiad gydag adolygiad o strwythurau yn mynd rhagddo. Yn y cyfamser, mae Bwrdd Perfformiad misol newydd wedi'i sefydlu i lywodraethu a darparu trosolwg strategol o flaenoriaethau a pherfformiad strategol yr heddlu. Mae'r bwrdd yn darparu llwyfan i uwch arweinwyr i weithio fel tîm mewn ffordd a fydd yn gwella a datrys problemau yn barhaus. Mae’r bwrdd yn mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â pherfformiad, capasiti, a gallu, gan ganolbwyntio ar faterion â blaenoriaeth ar draws portffolios.

Cytunwyd ar galendr o feysydd blaenoriaeth sy’n adrodd yn fisol yn ystod 2022/23 ac mae’n cynnwys:

- Cywirdeb Data Troseddu
- Adolygu Cam-drin Domestig a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched
- Gwasanaethau Fforensig – Uned Fforensig Ddigidol
- Adolygu’r prosiect O’r Dechrau i’r Diwedd
- Adolygu Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol
- Effeithiau Troseddau Sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau a Throseddau Difrifol a Threfnedig
- Ansawdd Ymchwiliadau a Chanlyniadau
- Adolygu'r Galw yn yr Haf
- Rheoli Troseddwyr
- Boddhad Dioddefwyr
- Timau plismona yn y gymdogaeth
- Troseddau Effaith Uchel

Mae'r heddlu yn datblygu adroddiadau perfformiad newydd gan ddefnyddio offer Power BI (Deallusrwydd Busnes) ac Azure i greu pecynnau perfformiad sy'n fwy hygyrch ac i hwyluso'r gwaith o ddadansoddi ac adrodd yn amserol. Yn ogystal â gwella a datblygu gofynion adrodd perfformiad yr heddluoedd eu hunain, mae'r newidiadau hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Mesurau Troseddau a Phlismona Cenedlaethol. Cynlluniwyd y mesurau newydd er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan ganiatáu i berfformiad gael ei fesur, ac i helpu i ddangos gwerth am arian plismona.

Mae perfformiad yr heddlu hefyd yn fater sy'n cael sylw gan y Bwrdd Plismona yn fisol. Yn ogystal â hyn, caiff data Adnoddau Dynol a data ariannol ei adrodd yn ôl yng nghyfarfodydd misol y bwrdd plismona fel y gall y Comisiynydd sicrhau bod perfformiad y sefydliad yn foddhaol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif os oes angen gwelliant.

Caiff perfformiad yr heddlu ei fesur, nid yn unig gan ystadegau cyhoeddedig ond drwy gyfuniad o ffactorau sydd wedi llywio ailstrwythuriad. Creodd yr ailstrwythuriad adran perfformiad, galw, ymgynghori ac arolygon newydd i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r galw sydd ar yr heddlu.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig cafodd yr arolygon eu gohirio. Cyflwynwyd arolwg newydd ym mis Chwefror 2021 ond mae'r ymatebion yn parhau i fod yn isel.

**7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy’n gwneud penderfyniadau sy’n

ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae'r ddwy wefan yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn unol â deddfwriaeth.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, dyfarnwyd y Nod Ansawdd Tryloywder i'r Comisiynydd gan Comparing Police and Crime Commissioners, sefydliad cenedlaethol sy'n monitro sut y caiff heddluoedd eu llywodraethu, er mwyn cydnabod lefel ac ehangder yr wybodaeth sydd ar y wefan.

Mae gweithgarwch arolygol ac archwiliol gan gyrff craffu allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru ac AHGTAEF yn parhau i ysgogi gwelliant busnes. Caiff argymhellion eu hystyried yn ofalus gan reolwyr a'u rhoi ar waith lle bo'n briodol, a goruchwylir yr holl gamau gweithredu gan grwpiau llywodraethu perthnasol. Caiff AHGTAEF eu monitro trwy gynnal cyfarfodydd ag arweinwyr busnes. Mae hyn wedi arwain at AHGTAEF yn cyflawni nifer sylweddol o feysydd i'w gwella ac argymhellion.

Cyhoeddodd AHGTAEF fod Uniondeb Data Troseddau yn "Achos Pryder Carlam" ym mis Mai 2021. Yn flaenorol, roedd arolygiad(au) PEEL 2016 a 2018 hefyd wedi nodi Uniondeb Data Troseddau fel maes sy'n Achos Pryder/Angen Gwelliant. Mae archwiliadau cynyddol wedi nodi mai ein prif feysydd pryder yw nodi troseddau mewn adroddiadau am ddigwyddiadau megis Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; N100 Adrodd am honiadau o dreisio, troseddau cudd o fewn troseddau megis troseddau ymddygiadol ddim yn cael eu cofnodi pan adroddir amdanynt fel rhan o adroddiadau Cam-drin Domestig; a dosbarthiad cywir pan derfynir trosedd.

Yn ogystal â hyn, mae adolygiad mewnol parhaus o gydymffurfiaeth â chod ymarfer y dioddefwr a safonau ymchwiliadau a goruchwyliaeth hefyd wedi amlygu rhai meysydd sy'n peri pryder. O ganlyniad, mae'r angen am ymyrraeth gyfannol i fynd i'r afael â phob maes wedi'i gydnabod ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r diffygion.

Bydd y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd yn newid y broses a ddefnyddir i gofnodi, ymchwilio i a therfynu troseddau yn sylweddol, gan gyflwyno haenau ychwanegol o archwiliad a sicrwydd ansawdd. Yn y tymor byr, tra bydd manylion y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd yn cael eu pennu, bydd y Tîm Archwilio Troseddau yn cynnal mwy o archwiliadau i sicrhau bod troseddau o fewn digwyddiadau yn cael eu nodi a'u cofnodi. Mae'r prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd wedi'i amserlennu i ddarparu ffordd well o weithio drwy ganoli swyddogaethau'n gynyddol o fis Tachwedd 2021 ymlaen. Bydd y prosiect hwn yn cael ei asesu'n annibynnol yn ystod haf 2022.

Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter i ystyried digonolrwydd trefniadau llywodraethu o fewn yr heddlu. Mae'r grŵp yn goruchwylio'r datganiad llywodraethu blynyddol ac yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau blynyddol.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn darparu cyngor ar y rhaglen flynyddol o archwiliadau mewnol ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr holl weithgarwch a chanlyniadau archwilio, gydag argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau y gweithredwyd arnynt ac yr adroddir arnynt i'r Pwyllgor. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn Rhaglen Archwilio Fewnol ar y Cyd bob blwyddyn.

Aethpwyd i'r afael â phryderon blaenorol mewn perthynas ag amseroldeb y gwaith o weithredu ar awgrymiadau'r Archwiliad Mewnol drwy sefydlu'r Grŵp Llywodraethu Archwilio ar y cyd, a sefydlwyd yn 2020. Mae'r Grŵp yn sicrhau bod gweithgarwch Archwiliadau Mewnol yn cael ei

oruchwylio ac yr adroddir ar gynnydd yn erbyn argymhellion.

Mae cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu Archwiliadau, a gadeirir ar y cyd, yn sicrhau atebolrwydd ar gyfer arweinwyr busnes sy'n gyfrifol am ddatblygu camau gweithredu gan sicrhau bod gwelliant yn cael ei wneud o ganlyniad i archwiliad mewnol a bod meysydd risg yn cael eu nodi, eu rheoli, a'u hystyried yn nhermau rhaglenni archwilio mewnol pellach.

Mae'r Grŵp Llywodraethu Archwiliadau ar y Cyd yn chwarae rhan allweddol wrth benderfynu ar y rhaglen, drwy ganolbwyntio ar risgiau sefydliadol a meysydd a nodir yn Natganiad Rheoli'r Heddlu i bennu rhaglen a fydd o'r budd mwyaf i'r sefydliadau. Gofynnir am gyfraniad gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio wrth gwblhau'r rhaglen.

Ar hyn o bryd, mae'r swyddogaeth archwilio fewnol wedi'i chontractio i asiantaeth allanol, sy'n cadw annibyniaeth weithredol. Roedd y rhaglen ar gyfer y flwyddyn 2021/22 yn cynnwys 23 o archwiliadau.

Ar hyn o bryd mae pob heddlu yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhaglen archwilio gydweithredol sy'n darparu budd economaidd a chyfle ar gyfer dysgu ar y cyd, gan gynnwys nodi arferion gorau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 11 o'r 23 archwiliad ar y cyd.

Wrth gyd gasglu argymhellion o archwiliadau 2019/20, nodwyd saith patrwm neu thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. O'r rhain, roedd 'Gwella Dogfennau Polisi neu Weithdrefnol' yn ymddangos yn 24% o'r ddogfennaeth ar gyfartaledd. Mae’r holl bolisïau a gweithdrefnau’n cael eu hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o’r prosiect DPPi2 sydd wedi’i ddatblygu er mwyn trosglwyddo i’r fewnrwyd fewnol newydd erbyn mis Mawrth 2023. Yn ogystal â hyn, mae fframwaith polisi a chanllawiau newydd wedi'u datblygu i gynorthwyo perchnogion ac awduron polisïau.

Mae’r rhaglen archwilio wedi’i chwblhau i raddau helaeth, gydag 20 o archwiliadau wedi’u cwblhau, dau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ac un wedi’i ohirio tan fis Ebrill 2022.

Arweiniodd wyth o'r archwiliadau at sicrwydd sylweddol, deg ohonynt at sicrwydd rhesymol a dau ohonynt at sicrwydd cyfyngedig. Gyda'i gilydd, derbyniodd yr archwiliadau terfynol hyn 54 o argymhellion, a bydd eu gweithrediad yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywodraethu Archwiliadau a'i adrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Cynhelir gwaith craffu ychwanegol yn achos meysydd sy'n derbyn Sicrwydd Cyfyngedig, sy'n cynnwys presenoldeb gan Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn darparu mwy o gyd-destun ac ymateb i gwestiynau.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniodd yr archwiliadau Adnoddau Dynol, Rheoli Absenoldeb a Chymdogaethau ac Eiddo Sicrwydd Cyfyngedig. Yn achos AD, roedd y canfyddiadau'n beirniadu'r ymlyniad at gyfnodau absenoldeb dibynyddion/tosturiol, ond yn canmol y ffordd yr oedd yr heddlu wedi ymateb i ofynion rheoli absenoldeb heriol pandemig COVID-19.

Yn achos yr archwiliad eiddo, edrychwyd ar eiddo a oedd wedi'i atafaelu fesul sampl mewn gorsafoedd heddlu, ble gwelwyd bylchau mewn cofnodion a newidiadau i leoliadau cofnodion ar adeg yr archwiliad. Yn dilyn hyn, ac ym mhob achos, daethpwyd o hyd i'r eitemau coll yn hawdd a chanfuwyd bod modd cyfiawnhau'r rhesymau dros eu symud. Nododd yr adroddiad arferion da mewn perthynas â thrin drylliau.

Cyflwynwyd y rhaglen ar gyfer 2022/23 i'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2022 ac mae'n darparu ar gyfer 24 o archwiliadau.

## 8. Adolygu a Gwerthuso Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan gynnwys y system rheoli fewnol.

Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch reolwyr o fewn y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a gan sylwadau a wnaed gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill.

Y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n bennaf gyfrifol am adolygu'r gwaith llywodraethu, gyda chamau gweithredu'n cael eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gasglu tystiolaeth ac asesu cynnydd yn erbyn matrics o dystiolaeth a luniwyd i ddangos cydymffurfiaeth y Gwasanaethau Plismona â'r Egwyddorion Craidd. Y matrics hwn sy'n ffurfio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Yn y cyfarfod diweddaraf ym mis Mai 2022, cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i adolygu trefniadau llywodraethu, ac yn ystod y cyfarfod rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r cynnydd sylweddol y mae'r heddlu wedi'i wneud yn erbyn y meysydd i'w gwella a'r Argymhellion sy'n deillio o weithgarwch Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, yn ogystal â'r ddarpariaeth barhaus o blismona o safon uchel yn ystod y pandemig byd-eang parhaus. Nododd y Grŵp nifer o feysydd i'w gwella mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a gaiff eu hadlewyrchu yn y matrics tystiolaeth yn ogystal â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, sydd wedi'u nodi fel camau gweithredu ar gyfer 2022/23.

Yn unol â'r rheoliadau, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ar ôl nodi cyngor y Cydbwyllgor Archwilio, wedi adolygu effeithiolrwydd eu gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Prif ddiben Archwiliadau Mewnol yw darparu sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod rheolaethau effeithiol ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r archwilydd mewnol yn rhoi barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, ymhlith y ffynonellau tystiolaeth allweddol sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 fel a ganlyn:

BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

*"Rwy'n fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.*

*Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawniad eu hamcanion.*

*Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig ac nid yw'n farn ar hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys eu sicrhau gan eu gwahanol ffynonellau sicrwydd."*

*Cyflwynodd Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â chyfrifon 2020/2021, ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon. Gwnaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl gydymffurfio â chau eu cyfrifon yn statudol, y cawsant eu cadarnhau erbyn diwedd Gorffennaf 2021, er gwaethaf effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau cyhoeddus.*

*Mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon 2021-2022, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru erbyn diwedd mis Mai 2022, nodwyd nifer o broblemau yn ystod y broses archwilio statudol mewn perthynas â'r prisiad asedau a gynhelir bob pum mlynedd. Ar ôl trafodaeth helaeth, adolygiad ac ystyriaeth ddyledus gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y Cydbwyllgor Archwilio, cafodd prisiad annibynnol pellach ei gaffael drwy broses gystadleuol. Ar ôl cwblhau'r diwydrwydd dyladwy priodol ar gyfer y prisiadau newydd, a dderbyniwyd ddiwedd mis Tachwedd, diweddarwyd y Datganiad o Gyfrifon a'i gyflwyno i Archwilio Cymru ddiwedd mis Ionawr. Daeth yr archwiliad statudol i ben ym mis Ebrill 2023.*

*Darparodd Llywodraeth Cymru fframwaith ar gyfer cwblhau'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2021/2022 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon drafft gael eu paratoi a'u hardystio erbyn 31 Awst 2022 ac i gyfrifon archwiliedig terfynol gael eu cyhoeddi erbyn 30 Tachwedd 2022 ar gyfer pob corff llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 eisoes yn darparu ar gyfer awdurdodau sy'n gorfod oedi cyn paratoi a chyhoeddi eu cyfrifon ariannol blynyddol. Oherwydd rheoliad 10(4), gall awdurdodau gynnwys nodyn ar wefannau i ddweud pam nad ydynt wedi paratoi neu gyhoeddi eu cyfrifon o fewn terfynau amser presennol i gydymffurfio â deddfwriaeth.*

## 9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad

Rydym yn fodlon bod yr adroddiad hwn yn sylwebaeth gywir ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Heddlu ac o'u heffeithiolrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i weithredu a chraffu ar lywodraethu effeithiol yn ystod 2022/23, a bod y meysydd a nodwyd fel rhai sydd angen eu gwella yn cael sylw priodol.

Isod ceir crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau neu eu cyflawni, fel y'u rhestrwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019/20, 2020/21 a 2021/22.

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu 19/20 | | |
| 3.2 | Hygyrchedd a thryloywder nifer o brosesau AD | Mae'r holl bolisïau AD yn y broses o gael eu gwirio a'u diweddaru yn barod ar gyfer trosglwyddo i DPPi2 ym mis Mawrth 2023. Mae holl bolisïau'r heddlu yn destun gwiriadau ac adolygiadau cyn y dyddiad hwn a dylid eu cwblhau erbyn mis Medi 2022. Cwblhawyd y templed polisi newydd, ac mae'r holl bolisïau'n cael eu trosglwyddo ar adeg yr adolygiad i'r templed newydd. Yn ogystal â hyn, mae proses/siart llif syml wedi'i chreu fel canllaw i ysgrifenwyr/adolygwyr polisi.<br>Mae cynnal adolygiad blynyddol o bolisïau yn ofyniad safonol.<br>Cwblhawyd gweithio'n ddoethach ddiwedd mis Mawrth 2022. Mae adolygiadau polisi bellach yn eitemau sefydlog ar agendau byrddau uwch arweinwyr ac yn atebol i'r Bwrdd Adfer, Newid a Thrawsnewid, sydd o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl. | Ar y gweill |
| 3.3 | Cydlynu gweithgarwch ymgysylltu rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gyda Phennaeth Cyfathrebu Corfforaethol yr Heddlu hefyd yn mynychu'r Bwrdd Plismona. Bodlon bod mwy o synergedd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a gweithgaredd yr Heddlu.<br>Mae'r Grŵp Ymgysylltu â Chymunedau yn parhau i gyfarfod i sicrhau bod ymgysylltiad cymunedol yn cael ei gydlynu rhwng yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Er mwyn gwella gwaith y grŵp hwn ymhellach, dylid cyflwyno adroddiadau clir ar wybodaeth, pryderon ac arferion da o fewn y strwythur llywodraethu ar y cyd. | WEDI'I GWBLHAU |
| 3.5 | Mae perchennog achos (OIC) yn bodoli er mwyn sicrhau ymagwedd gyson fwy strwythuredig tuag at | Mae perchennog achos (OIC) yn bodoli er mwyn sicrhau ymagwedd gyson fwy strwythuredig<br>tuag at gynlluniau datrys problemau<br>a chânt eu goruchwylio | AR Y GWEILL |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | ddysgu o gamgymeriadau, gwersi a ddysgwyd ac o fod wedi datrys problemau. | yn unol â hynny. Caiff cynlluniau eu hadolygu gan yr Hwb Cymunedau Diogelach o bryd i'w gilydd, sy'n cynnig cymorth ac arweiniad, ac yna byddant yn cael eu gwerthuso cyn cau.<br>Asesir a gwerthusir ansawdd ac effaith datrys problemau gan Gydlynydd Datrys Problemau'r Heddlu, gan ddefnyddio gwersi ac arferion gorau. Rhennir arferion gorau trwy amrywiol sianeli cyfathrebu.<br>Mae'r heddlu wedi mabwysiadu model OSARA i gefnogi a hysbysu meysydd â blaenoriaeth y Prif Gwnstabliaid mewn perthynas â rhaglenni cam-drin domestig, RASSO a Chyffuriau Anghyfreithlon. Cyn hyn, defnyddiwyd yr OSARA mewn nifer o feysydd gan gynnwys y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd.<br>Mae archwiliadau ac adolygiadau ar draws nifer sylweddol o feysydd plismona wedi cael eu cynnal ac yn parhau i gael eu cynnal, ac mae'n broses barhaus sy'n llywio ymrwymiad yr heddlu i welliant parhaus ac ymagwedd o ddatrys problemau<br>. | |
| 3.6 | Trefn reoli a rheolaeth ariannol trefniadau cydweithio. | Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn dilyn datblygiad cynllun gweithredu manwl a adroddwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio. Bydd y gwaith o weithredu'r camau gweithredu yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli Cydweithredol Cymru Gyfan a Grŵp Cyllid ac Adnoddau Heddlu Cymru.<br>Mae piler newydd wedi'i ychwanegu at waith llywodraethu'r heddlu sydd o dan gadeiryddiaeth Pennaeth Cyllid yr heddlu. Y Grŵp Cyllid, Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd yw'r grŵp lleol sy'n adrodd i'r Grŵp Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Rhanbarthol. Mae cydweithredu yn eitem sefydlog ar agenda'r grŵp hwn, ynghyd ag unrhyw gynigion/cyflwyniadau achos busnes newydd, risgiau a buddion i'r heddlu. Mae cofrestr buddion newydd sy'n cynnwys buddion cydweithio yn cael ei drafftio ar hyn o bryd (yn disgwyl am dempledi cenedlaethol i er mwyn ei chwblhau). | AR Y GWEILL |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.10 | Gwerthuso gwasanaethau a gomisiynir | Cynhaliwyd gweithgarwch gwerthuso pellach yn ystod 2020/21 ond effeithiwyd arno gan COVID-19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod proses sydd wedi'i gwreiddio'n llawn ar waith sy'n sicrhau bod dealltwriaeth glir o effaith a buddiannau buddsoddi mewn gwasanaethau o'r fath. | WEDI'I GWBLHAU |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Mae hyn yn cefnogi'r gwaith a wneir drwy Fwrdd Comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ymhellach, sy'n darparu lefel uwch o waith craffu ar wasanaethau a gomisiynir. | |
| | **Camau Gweithredu 20/21** | | |
| 4.2 | Sefydlu a monitro cynllun adfer er mwyn nodi darpariaeth sefydliadol a gweithredol newydd a gwell o wasanaethau, ac i ddeall y gwersi a ddysgwyd o'n hymateb i bandemig COVID-19. | Mae pob portffolio a maes busnes bellach yn atebol i'r Bwrdd Adfer, Newid a Thrawsnewid, a bydd hyn yn parhau yn dilyn y pandemig.<br>Yn ogystal â hyn, mae'r holl gynlluniau parhad busnes yn cael eu hadolygu i gyd-fynd â gweithio'n ddoethach.<br>Caiff y tîm gwella busnes blaenorol bellach ei adnabod fel y tîm newid ac maent yn cael eu huwchsgilio mewn rheoli prosiectau a newid ac yn cefnogi nifer o brosiectau â blaenoriaeth o fewn yr Heddlu. | AR Y GWEILL |
| 4.4 | Nodi'r broses a ddefnyddir gan yr Adran Gwella Busnes a Rheoli Gwybodaeth i gyflawni ei swyddogaethau archwilio sy'n ceisio gwella cywirdeb data. Pan nodir bylchau yn dilyn arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, gweithgarwch plymio dwfn yr Heddlu a Datganiad Rheoli'r Heddlu, sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro ac y gweithredir arnynt gan ddefnyddio'r mecanweithiau priodol. | Mae gwaith wedi'i wneud i fapio'r archwiliadau amrywiol a gynhaliwyd sy'n llywio ein dealltwriaeth o gywirdeb data. Y camau nesaf fydd ystyried a fydd y swyddogaethau hyn yn parhau i gael eu cyflawni fel ag y maent, neu a oes angen cydgysylltiad canolog, neu yn wir archwiliad canolog. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 21/22** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Rhaid pennu proses ar gyfer adolygu, mireinio, cymeradwyo a gweithredu polisïau'r heddlu. Rhaid iddi ddogfennu'r cyfrifoldebau dros berchnogaeth, awdurdodiad ac ymgynghoriad. | Mae fframwaith polisi, proses a chanllawiau newydd wedi'u cwblhau. | WEDI'I GWBLHAU |
| 5.2 | Rhaid cynnal adolygiad cyfannol o holl bolisïau'r heddlu er mwyn penderfynu pa rai sydd angen eu hadolygu | Mae fframwaith polisi, proses a chanllawiau newydd wedi'u cwblhau. | WEDI'I GWBLHAU |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | yn ogystal â chaniatáu i fylchau mewn meysydd polisi gael eu nodi. Mae hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol: Polisi chwythu'r chwiban, Polisi caffael, Polisi gwrth-dwyll, Newid ar gyfer Gwasanaethau Arbennig yr Heddlu | | |
| 5.3 | Datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n tanategu'r egwyddorion a nodir yn y Gorchymyn Protocol Plismona | Mae'r heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i'r WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru). Mae fframwaith WASPI yn darparu dull ymarferol o rannu gwybodaeth bersonol, safonau cyffredin, a thempledi ar gyfer datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data. | AR Y GWEILL |
| 5.4 | Datblygu egwyddorion Fframwaith Sicrwydd Bwrdd sy'n cefnogi'r gwaith o nodi risgiau llywodraethu corfforaethol, gan hysbysu'r DLIB, Datganiad Rheoli'r Heddlu ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig arall. | Mae risgiau corfforaethol yn eitem sefydlog ar agendau pob bwrdd, mae cofrestr risgiau corfforaethol newydd wedi'i datblygu ac mae prosesau risg wedi'u hadolygu a'u symleiddio i fodloni'r gofynion. Caiff yr holl risgiau eu hadrodd a'u hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio a thrwy waith llywodraethu'r heddlu i'r Bwrdd Adfer, Newid a Thrawsnewid, a gadeirir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl. Caiff y gwaith llywodraethu ategol ar gyfer yr holl risgiau corfforaethol ei wneud drwy'r Bwrdd Cyllid, Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd, sydd | AR Y GWEILL |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hefyd yn adrodd ar archwilio, arolygu, a materion Datganiad Rheoli'r Heddlu. | |
| 5.5 | Sicrhau bod y prosesau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r achosion pryder yr adroddwyd amdanynt o ran Cywirdeb Data Troseddu yn lliniaru'r risgiau a nodwyd ac yn gwella cywirdeb data yn sylweddol. | Mae Bwrdd Cywirdeb Data Troseddu a Dioddefwyr newydd wedi'i ychwanegu at y drefn lywodraethu a disgwylir i fyrddau newydd gael eu cynnal ym mis Mehefin 2022. Mae Cylch Gorchwyl drafft wedi'i gwblhau ac yn derbyn mewnbwn/adolygiad ar hyn o bryd. Mae'r bwrdd hwn yn dwyn ynghyd yr hen SCRUG a meysydd rhyngddibynnol eraill fel rhan o un bwrdd.<br>Adroddiad interim y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd wedi'i gwblhau gyda'r adroddiad terfynol (Busnes fel Arfer) i'w adrodd ym mis Gorffennaf 2022. | WEDI'I GWBLHAU |
| 5.6 | Sefydlu a gwreiddio ymagwedd gadarn tuag at Reoli Newid a Rhaglen o fewn yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan sicrhau bod camau llywodraethu priodol ar waith. | Mae templedi newydd wedi'u datblygu ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni ac mae staff gwella busnes yn cael eu huwchsgilio ar hyn o bryd i gefnogi prosiectau a newid o fewn yr heddlu. Mae hyfforddiant a datblygiad staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn prosiectau a newid ar gael. | AR Y GWEILL |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Penodwyd Pennaeth Rhaglenni a Newid newydd ym mis Ionawr 2022. | |

Cytunwyd ar y camau gweithredu ychwanegol a ganlyn yn 2022/23 o ganlyniad i'r gwerthusiad blynyddol diweddaraf o drefniadau llywodraethu.

| | Camau Gweithredu 22/23 | Cam gweithredu Perchennog/Statws |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | Ymgorffori'r fframwaith llywodraethu newydd a chyfrifoldebau grŵp, gan sicrhau eu bod yn cefnogi gwaith llywodraethu da a rheolaeth sefydliadol effeithiol | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.2 | Datblygu a gweithredu Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl, gan sicrhau bod Cynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl yn cael eu cyflawni<br>. | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.3 | Ailstrwythuro Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan sicrhau bod adnoddau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau'r Comisiynydd yn unol â'r<br>cynllun Heddlu a Throseddu. | AR Y GWEILL |
| 6.4 | Datblygu trefniadau perfformiad yr heddlu i sicrhau perfformiad effeithlon gan adrodd ar bob lefel o fewn yr heddlu | AR Y GWEILL |
| 6.5 | Adolygu'r trefniadau sydd ar waith i ddarparu arolygon statudol ac anstatudol<br>, gan sicrhau bod adborth gan gymunedau lleol yn dylanwadu ar newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth | AR Y GWEILL |
| 6.6 | Adolygu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd ar waith ar gyfer y<br>Bartneriaeth GanBwyll | AR Y GWEILL |
| 6.7 | Ystyried swyddogaeth Gwasanaethau Corfforaethol y sefydliad a p'un a yw'n cefnogi busnes sefydliadol yn ddigonol. | AR Y GWEILL |
| 6.8 | Fel y nodwyd fel rhan o'r hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, datblygu dangosyddion cydnerthedd ariannol<br>a dadansoddiad sensitifrwydd ymhellach mewn perthynas â newidiadau yn y galw am wasanaethau, a fydd yn cael eu hystyried drwy'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig. | AR Y GWEILL |

**Barn**

Ni all unrhyw ddatganiad o reolaeth fewnol ddarparu sicrwydd llwyr yn erbyn colledion materol; bwriad y datganiad hwn yw darparu sicrwydd rhesymol.

Ar sail yr adolygiad o'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu boddhaol ar waith, gan gynnwys systemau priodol o reolaeth fewnol a rheoli risg sy'n hwyluso ymarferiad effeithiol swyddogaethau.

**Casgliad**

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd yn y Gwasanaethau Plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos

gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol yn ogystal â chryfhau'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ymhellach.

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i broses o wella llywodraethu’n barhaus, a byddant yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella a nodwyd. Mae’r rhain wedi’u nodi yn y camau gweithredu a restrir uchod, a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy gydol 2022/23 gan eu bod yn parhau’n ddilys ac yn peri pryder. Bydd y gwaith o fonitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Dafydd Llywelyn
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Dr Richard Lewis
**Prif Gwnstabl**

Carys Morgans
**Pennaeth Staff a Swyddog Monitro**

Steve Cockwell
**Dirprwy Brif Gwnstabl**

Beverley Peatling
**Prif Swyddog Cyllid**

Edwin Harries
**Cyfarwyddwr Cyllid**